## YR WYDDFA

Mae'r Wyddfa a'i chopaon yn dangos effaith yr erydiad rhewlifol Oes yr Ia, enwedig ar lethrau Crib Goch, Crib y Ddysgl, Lliwedd a chopa pyramidaidd yr Wyddfa. Mae'r mynyddoedd uchaf yn dominyddu'r ardal, ond mae un gefnen hi'r yn ymestyn i'r Gogledd; lleoliad sawl safle cyn-hanesyddol yn uchel yn y mynyddoedd. Ond, un o'r darganfyddiadau mwyaf annisgwyl oedd anheddiad crannog a chanŵ yn Llyn Llydaw.

**Yr Wyddfa 1085m SH 610544**

Mae’r gair gwyddfa 'lle anrhydeddus, uchelfa, gorsedd, beddrod, claddfa' wedi ei godi o’r gair gŵydd 'bedd, bedrodd' a’r ôl-ddodiad -fa, sef treigliad -ma 'man, safle'. Anodd sicrhau os oedd yr enw yn cyfeirio at bigyn y copa creigiog; gyda’r ychwanegiad hwyrach o garnedd enfawr oedd yr wyddfa. Neu, y mynydd i gyd oedd fel yr orsedd. Fe gofnodwyd enw'r mynydd fel Weddvavawr yn 1198, a mater anodd yw penderfynu os i'r mynydd i gyd neu dim ond at y copa mae'r enw yn cyfeirio.

Mae hi'n amhosib sicrhau pa ‘unigolyn’ sy'n gysylltiedig â'r beddrod, unigolyn cyn-hanesyddol neu chwedlonol. A'i beddrod y cawr chwedlonol Rhita (a adnabyddir hefyd fel Rhica neu Ritta) sydd; cawr ac roedd yn gwneud ei fantell o farfau ei gelynion. Ar un adeg yr oedd carnedd fawr ar y brig, a gafodd ei dinistrio'n ddiweddarach yn ôl pob tebyg wrth adeiladu llochesi o amgylch y copa; dyma oedd yr enw Carnedd y Cawr. Fe nodwyd yr enw fel Moel y Wyddfa c.1450 gan y bardd Lewis Glyn Cothi; yma, mae'r gair moel 'copa' yn cyfeirio at y brig pigfain pyramidaidd neu'r pigyn carneddog.

Wedduavaur 1198 Siarter Aberconwy a Caput wedua vaur yn fersiwn 13 Ganrif, Y Wyddfa  15ed G Guto'r Glyn, Withaw Hille 1536-39 John Leland, Y Widna 1573 Humphrey Llwyd Cambriae Typus, Guydhvaen 1719 Glossarium Antiquarium Britannicum, Klogwyn Karnedd yr Wydhva 1722 William Camden, Y Wyddfa 1781 Thomos Pennant, Y Wyddfa 1838 AO.

**Carnedd Igin 1065m SH 610552**

Carnedd Ugain yw'r ffurf a welir ar fapiau'r AOmae'r term carnedd 'carn, gwyddfa, crug' yn gywir; ond, mae'r defnydd o ugain 'dau ddeg' yn wallus ac mae'r enw sy'n cael ei gyfieithu fel yr 'ugeinfed garnedd' yn aml. Y tebygrwydd yw mai enw tebyg i Garnedd Igin neu Igyn yw'r ffurf gorau'r enw, gyda'r Igin/Igyn yn enw personol. Mewn chwedloniaeth leol cawr o'r enw Igyn sy'n byw yno. Mae esboniadau eraill wedi ceisio cysylltu’r enw gyda (b)igin 'brig', llygriad y gaing 'lletem, lwmp', hefyd ffurf lygredig y gair digu ‘diserch’, a hyd yn oed digus ‘dicllon’. Higin 1719 Glossarium Antiquarium Britannicum, Carnedd Igyn 1757, Carnedd Igin 1839 Map Degwm, Carnedd Igin 1854 Llawysgrifau Vaynol.

**Crib Goch 921m SH 625553**

Yn syml crib 'brig, copa, trum' + coch 'rhudd, cringoch, brown'. Mae Crib  Goch yn nodwedd amlwg, ac yn sicr mae'r creigiau yn lliw cochlyd, ar noson heulog o haf mae'r clogwyni yn tywynnu llewyrch bron yn euraidd. Daw crib o'r Brythoneg **cripa* sydd yn gysylltiedig a Chernyweg *krib*, Llydaweg *krib*. Wedi ei nodi fel Y gribgoch ac fel Caput Grybgoch yn Siarter Aberconwy 1198. Crib Coch 1781 Thomas Pennant, Crib-goch 1838 AO.

**Y Lliwedd 898m SH 622553**

Cynigiwyd llawer o ddamcaniaethau i geisio esbonio ystyr enw'r mynydd; ym mhob tebyg, y rhai cryfaf yw'r esboniadau sydd wedi eu seilio ar ystyron niferus y gair lliw. Cymharer Hen Gernyweg *liu*, Hen Lydaweg *liou*, Gwyddeleg *lí*, Hen Wyddeleg *li, lli* 'lliw': y cwbl o’r Gelteg **lī-u̯o-* o’r gwreiddyn **(s)lī-* ‘glasaidd’;  sydd hefyd yn rhoi Lladin *līuor* ‘lliw dulas’. Mae'r Lladin *līuor* o ddiddordeb, oedd hyn yn cyfeirio at *lliw* 'glas, llwyd' + *(g)wedd* ‘wyneb, pryd’ ddynodi agwedd tywyll y mynydd. Neu, tybed os mynydd staenedig sydd, yn nodi'r haenau cwarts sy'n croesi'r graig.

Mynyddoedd

Mae rhai wedi nodi ystyron eraill, gyda lliw ‘ffurf, ymddangosiad’ + (g)wedd ‘iau, harnais’. Mae'r mynydd, gyda'i ddau gopa, yn dangos ffurf sy'n atgoffaol o iau. Hefyd, lliw, 'agored, amlwg' os ei defnyddir yn yr hen ystyr o amlygrwydd. Gellid cysylltu un o nifer o derfyniadau -ed gydag un o'r ystyron lliw. Rhaid nodi'r Hen Wyddeleg *lia* 'maen, carreg'. Mae eraill wedi amau mai priod enw sydd, yn seiliedig ar y gair lliw, yn gysylltiedig â'r enwau Lladin *Livia* a *Livius*.

Efallai mai lliwed `tyrfa, llu', Hen Lydaweg *liuuet* 'casgliad o ddynion' yw'r ystyr cywir. Mae'r esboniad sydd yn cael ei gofnodi mewn chwedloniaeth, sef llu'r Brenin Arthur yn gorffwys mewn ogof gerllaw yn disgwyl galwad i achub Prydain unwaith eto; ffefryn i lawer. Lliwedd yr Aran 1781 Thomas Pennant, Lliwedd 1838 AO, Crib y Lliwedd 1781 Myrddin Fardd.

**Y Gyrn Las 850m SH 612559**
Curn, cyrn 'crug, carnedd, tŵr pigfain' + glas 'llwyd', ac nid ystyron hwyrach glas 'morlas' a/neu `gwyrdd' sydd. Dyma enw'r mynydd fel y'i gwelir o'r dyffryn, nid yw'n edrych cymaint â chôn na phyramid o onglau eraill. Mae’r gair curn, cyrn yn fenywaidd unigol ac ni ddylid ei gymysgu â’r term cyrn, lluosog o’r gair corn ‘pwynt, carn’. Cyrn-las 1838 AO.

**Yr Aran 747m SH 604515**
Ceir sawl ystyr tebyg i'r elfen ar(d)- i. uchel ii. uchder iii. penrhyn, pwynt, trwyn – yn debyg i ardd 'uwchdir'; Hen Wyddeleg *aird, ardd* 'uwchdir, tir uchel' e.e. An Bhinn Ard 'y fan uchel'. Fe all yr olddodiad -an fod yn un bachigol a hefyd yn un ar ddiwedd berfenw. Er nad yw mor uchel â llawer o'r mynyddoedd o'i gwmpas, mae'r copa yn un amlwg. Yr Aran 1838 AO.

**Moel Eilio 726m SH 556577**
Rhaid dewis rhwng moel 'bryn crwn'; neu, moel 'bryn conigol', mae'r ddwy ffurf i’w weld, yn ddibynnol ar yr olygfa. Rhaid i un bod yn ofalus am y tueddiad am yr hyn gall ei alw yn 'cadarnhad rhagfarn'; lle mae un yn tueddu gweld yr union beth mae rhywun yn ceisio darganfod mewn enw neu leoliad ac anghofio'r gweddill. Enw personol yw Eilio neu Eiliaw, ffurf amrywiol ar yr enw Eliudd, Eilydd, neu ffurf arall, fel y gwelir yn enw Sant Eliud. Fodd bynnag, efallai y bu cydberthynas ystyr, gan fod gan y geiriau ail, eil y gwehyddu ystyron 'adeilad, cwt, wiail plethedig' a allai hefyd gyfeirio at ffald, geufan(au). Dylid nodi bod sawl anheddfan yn y cymoedd o gwmpas y bryn; neu, efallai bod ffurf y bryn wedi atgoffa trigolion cynharach o adeilad wiail. Mae carnedd o'r Oes Efydd fawr, sydd wedi ei chwalu, i’w weld ar y copa. Myleilio 1538 Llawysgrifau Wynnstay, Moel Eilio 1810 Thomas Pennant. Moel Eilian 1838 Map Degwm, Moel Eilio 1838 AO.

**Moel Cynghorion 673m SH 585563**
Cynghorion yw lluosog y gair cyngor 'cwnsela, ymgynnull’; braidd yn anodd eu cysylltu gyda safle ar neu wrth fynydd heb gofio'r chwedlau sy'n sôn am y penaethiaid lleol yn cyfarfod yna i ystyried materion pwysig. Hefyd, yr oedd y bobl gyffredin yn cyfarfod allan yn yr awyr agored ar un adeg. Un dehongliad cynnar o'r enw oedd fel Y Foel Greorion; greorion yw’r lluosog o grëwr, greor ‘bugail’; ond, mae'n angen newidiadau mawr i ddatblygu tuag at yr enw cynghorion. I eraill, y gair cynorion, lluosog y gair cynor 'heliwr' oedd; ysgrifennodd Leland yn ei Itinerary 1536-9 am y coedwigoedd a'r llu o geirw yn yr ardal. Neu, gall un lluosog y gair cynnor 'post drws, mynediad, allwedd', sef cynhorion, rhoi cysylltiad gwell; oherwydd bo'r bryn rhwng dau fwlch pwysig.

Moel Cynhorion 1781 a Moel y Cynghorion 1783 Thomas Pennant, Moel y cynghorion 1838 AO, Moel gyng horion 1839 Tithe Map, Moel Greorion 1908 Griffith Tecwyn Parry.

'Upon the Sondaies and hollidaies the multidude of all sortes of men and woomen and childerne of everie parishe doe use to meete in sondrie places either one some hill or one the side of some mountain where their harpers and crowthers singe them songs of the doeings of theire ancestors,

Mynyddoedd

namelie, of theire wars againste the Kings of this realme and the English nacion, and then do they ripp upp theire petigres at length howe eche of them is discended from those theire ould princs. Here alsoe doe they spende theire time in hearinge some part of the lives of Thalaasyn, Marlin, Beno, Pybbe, Jermon, and suche other the intended prophets and saincts of the cuntrie.'

**['Hen Chwedlau': Sir Ifor Wiliams, Cymmrodorion, 1946-7]**

**Llechog 650m SH 537598**
Llech 'maen, craig wastad', Hen Gymraeg *lech* 'carreg fflat, llechan' + -og 'tebygrwydd i, cysylltiedig â'; felly, mynydd creigiog sy'n llawn llech, disgrifiad union cywir. Llechog 1838 AO.

**Y Foel Gron 629m SH 560569**
Mae'r foel yn un esmwyth a chrwn, enwedig o'r Gorllewin; gron yw'r ffurf dreigliedig gron, sef ansoddair benywaidd y gair crwn 'amgrwn, cronellog'; Cernyweg *cren*, Hen Lydaweg *cron*. Foel Gron welir ar fapiau AO presennol. Mae'r ffurf dreigliedig y gair moel angen y fannod 'Y' i fod yn gywir. Os gweler enw fel yn y ffurf Foel Gron (neu Foel Ddu ac ymlaen) ar fapiau'r AO mae hyn yn dangos bo'r fannod i fod yno.

**Gallt y Wenallt 619m SH 643533**
Allt 'bryn, clogwyn, llethr serth' gyda'r g- wedi tyfu o flaen y gair. Mae wenallt yn gyfuniad o (g)wen, ffurf fenywaidd wyn, 'llwydwyn, gwelw; golau' + allt 'bryn, llethr (serth)'. Defnyddir y term wenallt mewn rhai mannau i ddynodi bryn neu lechwedd sy'n llygad yr haul ar ben bore.

**Diffwys 609m SH 636553**
Nid yw'r enw Diffwys 'llechwedd serth' ar fapiau presennol yr AO; fodd bynnag, defnyddiwyd yr enw gan genedlaethau o ffermwyr a bugeiliaid yn y dyffryn. Mae Siarter Aberconwy yn cofnodi: ad caput Wregyssauc 'i ben Wregysog (Gwregysog)' ar gyfer y rhan yma o'r gefnen rhwng Crib Goch a Sedem Peris 'Sedd Peris' (h.y. Gorffwysfa). Term a allai naill ai olygu amgáu ardal yw gwregys 'rhwymyn lledr', + -og 'cysylltiad â'; neu, rhywle sydd wedi'i gysylltu neu sy'n gysylltiedig.

**Y Graig Wen 608m SH 594507**
Craig Wen yw'r ffurf ar y mapiau presennol. Ar wahân i liw'r graig, fedrir defnyddio wen i ddisgrifio creigiau llwydwyn, y prif reswm dros y dewis o ddisgrifydd yw llechwedd bryn sy'n derbyn llawer o heulwen. Y Graig wen 1838 AO.

**Y Foel Goch 605m SH 571563**
Fedrir y gair coch 'rhudd, cochddu' ddisgrifio'r creigiau neu'r llystyfiant, enwedig ardal gyda llawer o redyn, sydd yn edrych yn euraidd yn y gaeaf. Foel Goch sydd ar fapiau AO cyfoes, enw arall sy'n dangos diffyg cofnodi cywir. Moel Goch 1838 AO.

**Tryfan 570m SH 598579**
Nid dyma'r mynydd enwog o'r un enw, ond llinell grib hir siarp gyda sawl copa isel yn ymestyn i lawr o Lechog. Mae'n cadarnhau na nid tri 'tri' + ban 'brig, pwynt, brig' sydd yn yr enw; mae'r crib yn un go fain ac mae'r elfen try- 'llawer, iawn' + 'brig, copa' yn esboniad gwell. Yn lleol, fe ddefnyddir Tryfan Mawr a Tryfan Bach.

**Carreg Gwalch 545m SH 641553**
Carreg 'craig' + gwalch 'hebog'; mae'n anodd penderfynu pa un o'r adar *falconidae* oedd yn nythu ar y clogwyn. Dyma enw arall sydd nid ar fapiau'r AO, er bod ganddynt y term hurt 'The Horns' gerllaw.

**Cefn Du 441m SH 508604**
Fel arfer, yn y dirwedd, y defnydd y term cefn yw fel 'cefnen, crib, sbardun'; ond weithiau cefn

Mynyddoedd

'llechwedd' + du 'tywyll'. Y llechweddau grugog sy'n rhoi'r argraff o fryn neu gefnen du 'tywyll'.

**Derlwyn 416m SH 588586**
Enw digon syml, sef der(w) 'coed derwen' +  llwyn 'celli'. Mae derw yn un lluosog y gair dar ‘derwen’ o’r Indo Ewropeaidd **der-* neu **dar-* o’r gwreiddyn **deru-* ‘pren bychan’. Derlwyn 1838 AO.

**Pannelau 338m SH 673502**
Mae'r gair Panelau yn ffurf amrywiol ar pannwl 'dyffryn bychan, panr, rhych'; nid yw'r enw a y mapiau presennol ond dyma'r ffurf sydd ar gael ar fap AO 1838.

**Carreg Lefain 336m SH 541613**
Carreg ateb neu garreg lafar yw'r ystyr am y copa isel, ar ddiwedd cefnen sy’n ymestyn i lawr o Gefn Du. Ffurf dreigliedig y gair llefain ‘cri, bloedd’.

Mynyddoedd